

Cymraeg yn y Gweithle: Telynau Teifi

Sefydlwyd Telynau Teifi yn 2003 fel busnes mentergarwch cymunedol i wneud telynau lifer, golyga hyn felly nad elusen ond busnes nid-er-elw (sef rhaid i unrhyw elw a wnaed ei ail-fuddsoddi yn y busnes yn hytrach na chyfranddalwyr).

Yn ogystal mae elfen gryf o greu cysylltiadau gyda'r gymuned leol, sef cynnig swyddi o'r bobl leol, derbyn ymweliadau grwpiau'r ardal a defnyddio'r ganolfan Delyn I ddysgu. Mae gan Landysul cymuned cryf iawn o siaradwyr Cymraeg, gyda'r ysgol leol yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; felly pan gymrais y swydd o reoli Telynau Teifi, teimlais ei bod hi'n bwysig iawn i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn y busnes.

Pan ddechreuais yn Telynau Teifi yn 2017 yr unig siaradwr Cymraeg oedd Owen Shiers; ac mae Owen ond yn ymweld â'r ganolfan yn achlysurol gan ei fod yn cyflawni mwyafrif o'i waith o bell, felly nid oedd neb ar gael i siarad Cymraeg gyda chwsmeriaid nag ymwelwyr.

Pa wasanaeth/au roedd eich mudiad wedi ei dderbyn gan eich Swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Busnes?

Mae'r Swyddog Datblygu wedi bod yn wych yn helpu ni ddatblygu rôl yn fwy i'r Gymraeg yn ein busnes. Mae'l wedi rhoi gwybod i ni am nifer o ddiwyddiadau er mwyn i ni gael cymryd rhan, sef y Ffair Busnes yn Aberteifi a Dydd Miwsig Cymru yn Chwefror; mae'i wedi rhoi nifer o ddeunyddiau dwyieithog i'r swyddfa, megis arwydd 'agor/cau', ond y cyfraniad mwyaf yw cyfieithu'n gwefan sydd wedi bod yn dasg enfawr a rhywbeth na fyddwn fel busnes bach fod wedi gallu fforddio heb ei help.



Beth yw eich cefndir chi, a beth oedd eich teimladau am ddefnyddio'r iaith yn eich busnes cyn gweithio gyda'ch swyddog lleol?

Dechreuais i ddysgu Cymraeg 'chydig y blynyddoedd yn ôl gan fod i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i integreiddio mewn i'r gymuned leol. Mae fy mhlant i wedi bod trwy' system addysg ddwyieithog, ac fel athrawes gynradd o'n i eisiau dysgu mewn ysgolion cynradd hefyd. Mae yna nifer o agweddau'r busnes sydd wedi eu blaenoriaethu yn Telynau Teifi ers i mi gymryd y swydd, ac yr iaith Gymraeg sydd wedi bod pennaf i mi ers y dechrau. Dwi'n siarad gyda chwsmeriaid yn Gymraeg os ydynt yn dechrau sgwrsio yn yr iaith; ond mae'n rhaid i mi gyfaddef, rwyf wedi colli 'chydig bach o hyder gan nad oes gen i neb i sgwrsio yn rheolaidd, yn enwedig ar y ffôn lle nad ydw i'n gallu gweld y person. Wrth alw mewn bob hyn a hyn, mae'r Swyddog Datblygu wedi fy ysgogi i wneud yr iaith Gymraeg yn fwy o flaenoriaeth.

Oedd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes yn rhywbeth roeddech chi wedi ei ystyried o'r blaen?

Ges i sioc pan ddechreuais i yma i weld nad oedd Telynau Teifi yn defnyddio mwy o'r Gymraeg - yn enwedig gyda'r logo yn dweud 'Telynau Teifi Harps'. Ers I mi ddechrau yma, dwi'n trial defnyddio'r Gymraeg ble bynnag y gallaf.

Beth oedd eich profiad o'r gwasanaeth?

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych. Rydym yn y broses o ail-agraffu'n cerdiau post a rhestr prisiau yn y Gymraeg er mwyn cynnig y gwasanaeth ddwyieithog l'n cwsmeriaid ac mi fydd ein gwefan dwieithog yn cael ei lanwsio'n fuan. Mynychais y 'Ffair Busnes' yng Nghastell Aberteifi a oedd yn fuddiol iawn, nid jyst y cynnwys ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn busnes, ond hefyd y cyfle l drochi yn y Gymraeg am ychydig oriau. O'n i'n hapus iawn 'mod i dal yn gallu deal popeth heb cymorth cyfieithydd - roedd hwn wedi magu fy hyder!



Ydych chi wedi cael ymateb ffarfïol wrth ddefnyddio'r Gymraeg lle gallwch chi yn eich busnes?

Dwi'n meddwl fod defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, neu hyd yn oed unrhyw le, yn derbyn ymateb positif, hyd yn oed wrth wneud camgymeriadau. Y peth diddorol i mi, yw'r apêl o ysgrifennu a defnyddio'r Gymraeg mewn deunyddiau marchnata, bod hyn mor ddeniadol nid yn unig i gwsmeriaid Cymraeg ond hefyd i bobl sy'n byw tu allan l Gymru a thu hwnt, yn enwedig dramor a bod y cwsmeriaid hyn yn hoffi'r ffaith fod hunaniaeth ddiwyllianol gryf yn cael ei adlewyrchu yn neunyddiau marchnata'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd.



Cynlluniau'r Dyfodol

Cyn bo hir fydd ein gwefan a'n deunyddiau i gyd yn ddwyieithog. Nesaf hoffwn i gael arddangosfa fawr ar y wal y nein stiwdio wedi'i baentio gyda geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r busnes yn ogystal â sut i ynganu mewn cromfachau, e.e. telyn (tel-in). Dwi'n meddwl gall hyn fod yn drawiadol iawn, a hefyd yn hwyl i gael pobl i geisio'r iaith. Hoffwn ffeindio'r amser i fynd nôl i astudio'r Gymraeg, ond mi fydd rhaid i mi aros 'chydig, gan 'mod i hefyd yn ceisio i ddysgu i ganu'r delyn yn fy amser sbâr.